COFNODION CYFARFOD Y PWYLLGOR LLYWODRAETHU AC ARCHWILIO A GYNHALIWYD O BELL TRWY MICROSOFT TEAMS DYDD IAU, 22 GORFFENNAF 2021, AM 14:00

Presennol

Y Cynghorydd LM Walters – Cadeirydd

| | | | |
|---|---|---|---|
| JE Lewis | MJ Kearn | RM Granville | AJ Williams |
| TH Beedle | A Hussain | | |

Ymddiheuriadau am Absenoldeb

CA Green, B Sedgebeer, PA Davies, P Davies a/ac E Venables

Swyddogion:

| | |
|---|---|
| Simon Roberts | Uwch Ymchwilydd Twyll |
| Deborah Exton | Dirprwy Bennaeth Cyllid dros dro |
| Samantha Clements | Archwilio Cymru |
| Mark Galvin | Uwch Swyddog Gwasanaethau Democrataidd - Pwyllgorau |
| Gill Lewis | Pennaeth Cyllid a Swyddog 151 Dros Dro |
| Michael Pitman | Swyddog Gwasanaethau Democrataidd – Pwyllgorau |
| Nigel Smith | Rheolwr Cyllid |
| Jason Blewitt | Archwilio Cymru |
| Martin Morgans | Pennaeth Gwasanaeth - Perfformiad a Gwasanaethau Partneriaeth |

Aelod Lleyg:

Mrs J Williams

258. DATGANIADAU O FUDDIANT

Dim

259. CYMERADWYO COFNODION

PENDERFYNWYD: Bod cofnodion cyfarfod 18 Mehefin 2021 yn cael eu cymeradwyo fel cofnod gwir a chywir

260. COFNOD GWEITHREDU'R PWYLLGOR LLYWODRAETHU AC ARCHWILIO

Cyflwynodd y Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd adroddiad a roddodd ddiweddariad i'r Pwyllgor ar y Cofnod Gweithredu, a ddyfeisiwyd fel ffordd o olrhain y penderfyniadau a wnaed gan y Pwyllgor wrth iddo gyflawni ei swyddogaethau.

Dywedodd fod y Cofnod Gweithredu yn cael ei gyflwyno i bob cyfarfod o'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio a'i fod ynghlwm yn Atodiad A i'r adroddiad eglurhaol. Amlinellodd y camau a restrir yn yr Atodiad gyda'r cynnydd hyd yma ar bob un o'r rhain.

Gofynnodd y Cadeirydd am yr adroddiad cynaliadwyedd ariannol gan Archwilio Cymru, a oedd i fod i gael ei ddwyn i gyfarfod mis Gorffennaf, a gofynnodd a oedd diweddariad ar hyn. Dywedodd Cynrychiolydd Archwilio Cymru fod sylwadau swyddogion wedi dod i law ar hyn a bod Archwilio Cymru yn y broses o ddelio â'r rhain. Esboniodd fod yr

adroddiad lleol a'r adroddiad cenedlaethol yn debygol o gael eu dwyn i gyfarfod mis Medi. Gofynnodd y Cadeirydd a ellid diweddaru'r cofnod gweithredu i adlewyrchu hyn.

PENDERFYNWYD: Bod y pwyllgor wedi nodi'r adroddiad.

261. ADRODDIADAU PWYLLGOR LLYWODRAETHU AC ARCHWILIO CYMRU

Cyflwynodd Cynrychiolydd Archwilio Cymru adroddiad a roddodd ddiweddariad i'r pwyllgor ar y gwaith archwilio ariannol a pherfformiad a wnaed, ac sydd i fod i gael ei wneud, gan Archwilio Cymru.

Esboniodd Cynrychiolydd Archwilio Cymru fod llawer o'r gwaith archwilio ariannol a restrwyd bellach wedi'i gwblhau ac y byddai'n cael ei drafod ar yr agenda yn y cyfarfod hwn. Ychwanegodd fod y gwaith a wnaed ar Archwilio Ffurflenni 2020-21 ar gyfer Cydbwyllgor Amlosgfa Llangrallo hefyd wedi'i gwblhau ac y byddai'n cael ei ddwyn i'r pwyllgor hwnnw ym mis Medi. Ychwanegodd y byddai Archwiliad o Grantiau a Ffurflenni 2020-21 y Cyngor yn cael ei gynnal o fis Hydref hyd at fis Rhagfyr eleni.

Esboniodd Cynrychiolydd Archwilio Cymru fod gwaith Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn parhau am y cyfnod 2021-22, ond bod ymgynghori wedi digwydd gydag awdurdodau lleol a'r consenswS oedd y dylai Archwilio Cymru integreiddio'r gwaith hwn â'r gwaith archwilio safonol.

Esboniodd Cynrychiolydd Archwilio Cymru fod y gwaith Sicrwydd ac Asesu Risg yn brosiect i nodi lefel y sicrwydd archwilio a/neu lle gallai fod angen gwneud gwaith archwilio pellach yn y blynyddoedd i ddod mewn perthynas â risgiau i'r Cyngor o roi trefniadau priodol ar waith i sicrhau gwerth am arian wrth ddefnyddio adnoddau. Roedd y gwaith hwn yn parhau trwy gydol y flwyddyn.

Amlinellodd yr eitem *Springing Forward - Examining the Building Blocks for a Sustainable Future* ac esboniodd ei fod yn adolygiad thematig a oedd yn edrych ar bob awdurdod yng Nghymru a sut yr oeddent yn cryfhau eu gallu i drawsnewid, addasu a chynnal y modd y darperir gwasanaethau. Ychwanegodd eu bod ar hyn o bryd yn cwmpasu'r gwaith a'i fod wedi'i gynllunio ar gyfer Hydref 2021 ymlaen, gydag arolwg yn cael ei gyhoeddi i swyddogion ac Aelodau ym mis Medi i nodi'r themâu allweddol i ganolbwyntio arnynt.

Amlinellodd Cynrychiolydd Archwilio Cymru yr adolygiad a oedd yn ymwneud â phartneriaeth iechyd Cwm Taf Morgannwg yn dilyn trosglwyddiad y Cyngor i'r bartneriaeth yn 2019. Roedd y cwmpas i'w drafod gyda'r Cyngor o hyd ac roedd trafodaeth grŵp wedi'i threfnu ar gyfer 17 Awst 2021 i sefydlu hyn. Mae'r gwaith ar hyn i fod i ddechrau yn Hydref 2021.

Esboniodd Cynrychiolydd Archwilio Cymru fod adroddiad gwaith Archwilio Cymru yma bellach yn adroddiad chwarterol ond y byddai hefyd yn tynnu sylw at y gwaith gydag ESTYN ac Arolygiaeth Gofal Cymru (CIW).

Amlinellodd Cynrychiolydd Archwilio Cymru hefyd yr adolygiad strategaeth ddigidol a gynhaliwyd yn 2018. Ers hynny, mae'r Cyngor wedi mabwysiadu Strategaeth Ddigidol 2020-2024. Cyflwynodd y meysydd allweddol y gallai'r Cyngor wella arnynt a'r modd o gyflawni hyn. Rhestrwyd hyn yn Arddangosyn 1 yr adroddiad.

Roedd y Prif Swyddog Dros Dro - Cyllid, Perfformiad a Newid o'r farn fod canfyddiadau'r adolygiad gan Archwilio Cymru yn deg a bod nifer o feysydd i'w gwella ac, yn enwedig ers y pandemig, bu newidiadau yn y ffordd yr oedd CBSPAO yn gweithio ac roedd yn

bwysig cymryd y rheini i ystyriaeth a dysgu oddi wrthynt wrth symud ymlaen gyda'r Strategaeth Ddigidol. Ychwanegodd fod y bwrdd rhaglen wedi'i sefydlu a oedd yn rhoi sylwadau am adnoddau a risgiau ac ati ac roedd CBSPAO wedi ystyried y rhain. Roedd adolygiad rheolaidd o'r gofrestr risg yn un agwedd a ddaeth o hyn a oedd wedi'i bwydo trwy CMB a CCMB ac y gallai'r pwyllgorau Craffu edrych arno maes o law.

Gofynnodd yr Aelod Lleyg am eglurder ar y pwynt y byddai pwyllgor Craffu yn adolygu'r cynnydd maes o law - pa amserlen realistig y gellid ei disgwyl er mwyn sicrhau cynnydd. Dywedodd y Prif Swyddog Dros Dro - Cyllid, Perfformiad a Newid ei bod yn anodd darparu amserlen glir gan mai dyma ddechrau proses a thaith hir o ran newid lleoliadau gwaith, arferion gwaith a materion diwylliannol. Ychwanegodd fod y bwrdd yn cyfarfod yn fisol felly fe fyddai diweddariadau rheolaidd, ac y byddai darparu amserlenni yn golygu gosod amserlenni ar gyfer prosiectau unigol er mwyn rhoi arwydd clir o'r hyn y dylid ei ddisgwyl.

Gofynnodd yr Aelod Lleyg am y goblygiadau ariannol a'r gyllideb sy'n ofynnol ar gyfer y strategaeth. Esboniodd y Prif Swyddog Dros Dro - Cyllid, Perfformiad a Newid y bydd gan bob un o'r prosiectau sy'n rhan o'r strategaeth achos busnes llawn. Esboniodd mai un o'r materion mewn awdurdodau lleol gan gynnwys CBSPAO yw gwireddu buddion a'r hyn y llwyddodd y prosiectau i'w gyflawni ar ôl eu cwblhau. Dywedodd mai hwn oedd un o'r prif feysydd ffocws i'r bwrdd rhaglen wrth geisio rhyddhau adnoddau ac ailgyfeirio'r gallu hwnnw i feysydd eraill a allai fod yn ei chael hi'n anodd, gyda'r nod o gyfoethogi swyddi a defnyddio adnoddau yn well yn hytrach na chanolbwyntio'n uniongyrchol ar arbedion arian parod.

Ymhelaethodd y Dirprwy Bennaeth Cyllid Dros Dro ar ofynion y gyllideb ac egluro bod rhywfaint o arian ar gael o brosiectau TGCh blaenorol, refeniw yn ogystal â chyllid cyfalaf, a amlygwyd yn y rhaglen gyfalaf. Roedd cyllid pellach ar gael gan ddefnyddio cronfeydd wrth gefn wedi'u clustnodi a fyddai'n helpu i gyflymu nifer o'r prosiectau a byddai unrhyw achosion busnes pellach a ddeuai i'r bwrdd yn cael eu gwerthuso ac yn tynnu o gronfeydd pe bai angen.

Gofynnodd yr Aelod Lleyg pa faterion diwylliannol a ddisgwylid. Esboniodd y Prif Swyddog Dros Dro - Cyllid, Perfformiad a Newid fod llawer o staff wedi cyflawni eu rôl yn yr un modd am amser hir ond bod aneffeithlonrwydd sef yr hyn yr oedd angen gweithio arno ac weithiau mae angen perswadio pobl i ddeall bod dull newydd yn fwy buddiol mewn gwirionedd.

Gofynnodd y Cadeirydd a ellid dod ag adroddiad diweddaru i'r pwyllgor yn y flwyddyn newydd a oedd yn canolbwyntio ar y risgiau a oedd yn cael eu profi o'r prosiect, gan gynnwys y camau yr oedd angen eu cymryd i roi'r strategaeth ar waith.

PENDERFYNWYD: Bod y Pwyllgor yn nodi Adroddiadau Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio, Archwilio Cymru yn Atodiad A ac Atodiad B.

262. DATGANIAD O GYFRIFON 2020-21

Cyflwynodd y Rheolwr Grŵp Dros Dro - Prif Gyfrifydd adroddiad o'r Datganiad Cyfrifon archwiliedig ar gyfer 2020-21, a oedd i fod i gael ei ardystio gan ein harchwilwyr allanol, Archwilio Cymru, a Llythyr Cynrychiolaeth cysylltiedig y Cyngor.

Dywedodd fod Datganiad Cyfrifon archwiliedig diwygiedig 2020-21 ynghlwm yn Atodiad A. Roedd manylion yr holl newidiadau wedi'u cynnwys yn Adroddiad Archwiliad Cyfrifon yr Archwilydd yn Atodiad B. Roedd yr Archwilydd Penodedig angen Llythyr

Cynrychiolaeth Terfynol gan y Cyngor i gwblhau'r broses a galluogi i'r cyfrifon gael eu cymeradwyo a oedd i'w gweld yn Atodiad C.

Esboniodd y Rheolwr Grŵp Dros Dro - Prif Gyfrifydd fod y Datganiad Cyfrifon 2020-21 nas archwiliwyd wedi'i lofnodi gan y swyddog ariannol cyfrifol ar 11 Mehefin 2021 a'i gyflwyno i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ar 18 Mehefin 2021 i'w nodi. Yn y cyfamser, cynhaliwyd yr archwiliad allanol, gan arwain at wneud nifer o newidiadau i'r datganiadau ariannol, mae'r pwyntiau allweddol wedi'u rhestru yn 3.2 a 3.3 o'r adroddiad gyda'r manylion llawn yn Atodiad B.

Ychwanegodd, yn amodol ar gymeradwyaeth y Pwyllgor i'r datganiad cyfrifon a'r llythyr cynrychiolaeth, y rhagwelwyd y byddai'r archwilydd cyffredinol yn llofnodi'r cyfrifon archwiliedig ac yn dilyn hyn, byddem yn cyhoeddi'r cyfrifon archwiliedig terfynol yn unol â'r dyddiad cau statudol sef 31 Gorffennaf 2021.

Esboniodd y Rheolwr Archwilio - Archwilio Cymru fod pwysau Covid-19 wedi profi i fod yn anodd ond roedd cwblhau'r datganiad cyfrifon erbyn mis Gorffennaf yn orchest. Diolchodd i'r tîm cyllid am eu gwaith caled yn cyflawni tasg o'r fath.

Dywedodd Rheolwr Archwilio - Archwilio Cymru nad oedd sicrwydd yn cael ei warantu ond eu bod yn gweithio i lefel o berthnasedd a oedd yn anelu at nodi a chywiro camddatganiadau a allai fel arall achosi i ddefnyddiwr y cyfrifon gael eu camarwain. Mae Archwilio Cymru wedi gosod y lefel ar £4.8 miliwn ar gyfer archwiliad eleni. Ychwanegodd fod y gwaith archwilio bellach wedi'i gwblhau ac roedd Archwilio Cymru yn bwriadu cyhoeddi barn archwilio ddiamod ar gyfrifon eleni unwaith y byddai'r Llythyr Cynrychiolaeth wedi'i ddarparu yn seiliedig ar yr hyn a nodir yn Atodiad 1.

Tynnodd Rheolwr Archwilio - Archwilio Cymru sylw at y materion sy'n codi o'r archwiliad fel y nodwyd ym mhwyntiau 11 i 14.

Adleisiodd y Cadeirydd ddiolch y Rheolwr Archwilio ond diolchodd hefyd i Archwilio Cymru am eu gwaith caled yn enwedig yn y flwyddyn ddiwethaf gyda phwysau'r pandemig.

PENDERFYNWYD: Bod y Pwyllgor yn:

- cymeradwyo Datganiad Cyfrifon archwiliedig 2020-21 fel y'i diwygiwyd (Atodiad A);
- nodi Adroddiad Archwiliad Cyfrifon yr archwilwyr penodedig (Atodiad B);
- nodi a chytuno ar y Llythyr Cynrychiolaeth Terfynol i Archwilio Cymru (Atodiad C).

263. FFURFLEN DRETH HARBWR PORTHCAWL 2020-21 LLYTHYR ARCHWILIO BLYNYDDOL

Cyflwynodd y Rheolwr Grŵp Dros Dro - Prif Gyfrifydd adroddiad a'i bwrpas oedd cyflwyno Llythyr Archwilio Blynyddol 2020-21 yr Archwilydd Penodedig ar gyfer Harbwr Porthcawl, sydd ynghlwm fel Atodiad A, i'w nodi.

Esboniodd y Rheolwr Grŵp Dros Dro - Prif Gyfrifydd fod y Llythyr Archwilio Blynyddol 2020-21 sydd ynghlwm yn atodiad A ar gyfer Harbwr Porthcawl yn cadarnhau bod yr Archwilydd Penodedig yn bwriadu cyhoeddi tystysgrif archwilio ddiamod, gan gadarnhau ei fod yn cyflwyno golwg wir a theg o sefyllfa ariannol a thrafodiadau'r Harbwr.

Cadarnhaodd y llythyr hefyd fod yr Archwilydd Penodedig yn fodlon na chanfuwyd unrhyw gamddatganiadau yn y Ffurflen Flynyddol ac nad oedd unrhyw faterion eraill yn effeithio ar eu barn archwilio. Rhagwelwyd y bydd yr Archwilydd Penodedig yn ardystio'n ffurfiol bod yr archwiliad o'r cyfrifon wedi'i gwblhau, ar 23 Gorffennaf 2021.

PENDERFYNWYD: bod y Pwyllgor yn:

- nodi'r Llythyr Archwilio Blynyddol 2020-21 yn Atodiad A

264. ADRODDIAD ALLDRO BLYNYDDOL RHEOLI TRYSORLYS 2020-21

Cyflwynodd y Prif Swyddog Dros Dro - Cyllid, Perfformiad a Newid adroddiad a roddodd y wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ar y sefyllfa alldro ar gyfer gweithgareddau rheoli trysorlys ar gyfer 2020-21, Dangosyddion Rheoli'r Trysorlys ar gyfer 2020-21, gan dynnu sylw at gydymffurfio â pholisïau ac arferion y Cyngor.

Dywedodd fod y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio, yn ystod blwyddyn ariannol 2020-21, wedi derbyn Adroddiad Alldro Blynyddol Rheoli'r Trysorlys 2019-20 ym mis Medi 2020, Adroddiad Hanner Blwyddyn Rheoli'r Trysorlys 2020-21 ym mis Tachwedd 2020 a'r TMS 2021-22 ym mis Ionawr 2021. Amlinellodd nifer o newidiadau a wnaed ers hynny a gyflwynwyd i'r pwyllgor yn y cyfarfod blaenorol.

Amlinellodd y Prif Swyddog Dros Dro - Cyllid, Perfformiad a Newid y newidiadau economaidd a ddigwyddodd yn ystod y cyfnod 2020-21 gan gynnwys cyfnod Pandemig Covid-19 a chyfnod pontio Brexit. Ers dechrau'r pandemig Covid-19, mae Llywodraeth y DU a Chymru wedi cyhoeddi ystod eang o gynlluniau cymorth ariannol i geisio lliniaru'r effaith ar yr economi, busnesau ac unigolion. Rhestrwyd y rhain yn adran 4.1.5 yr adroddiad. Ychwanegodd fod crynodeb o'r gweithgareddau rheoli'r trysorlys ar gyfer 2020-21 ynghlwm yn Atodiad A.

Er mwyn tynnu sylw at rai meysydd allweddol, dywedodd nad oedd unrhyw fenthyca tymor hir wedi'i gymryd yn ystod 2020-21 ac nad oedd aildrefnu dyledion. Mae llifau arian ffafriol wedi darparu cronfeydd dros ben ar gyfer buddsoddi a'r balans ar fuddsoddiadau ar 31 Mawrth 2021 oedd £51.55 miliwn, gyda chyfradd llog ar gyfartaledd o 0.21%. Roedd gwybodaeth bellach yn 4.2.2 o'r adroddiad.

Amlinellodd y Prif Swyddog Dros Dro - Cyllid, Perfformiad a Newid gyfanswm y benthyca allanol a oedd ychydig yn llai na £97 miliwn gyda chyfradd llog o 4.7% ar gyfartaledd. Roedd gwybodaeth bellach yn 4.23 a 4.24 o'r adroddiad.

PENDERFYNWYD: Bod y Pwyllgor yn:

- Yn nodi gweithgareddau rheoli'r trysorlys blynyddol a Dangosyddion Rheoli'r Trysorlys ar gyfer 2020-21.

265. COFRESTR RISG GORFFORAETHOL

Cyflwynodd y Prif Swyddog Dros Dro - Cyllid, Perfformiad a Newid adroddiad a roddodd ddiweddariad i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ar y newidiadau i'r Asesiad Risg Corfforaethol, yn unol â llinell amser rheoli risg y Cyngor sydd wedi'i chynnwys ym Mholisi Rheoli Risg y Cyngor.

Dywedodd ei bod yn ofynnol i'r Cyngor ddatblygu prosesau rheoli risg effeithiol, gan gynnwys asesiad o risgiau corfforaethol ac roedd Cylch Gorchwyl y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn ei gwneud yn ofynnol i'r Pwyllgor adolygu, craffu a

chyhoeddi adroddiadau ac argymhellion ar briodoldeb rheolaeth risg y Cyngor, rheolaeth fewnol a threfniadau llywodraethu corfforaethol. Ceir cefndir pellach yn adran 3.

Dywedodd y Prif Swyddog Dros Dro - Cyllid, Perfformiad a Newid fod Gwasanaethau Archwilio Mewnol SWAP wedi cynnal yr archwiliad diweddar o wasanaethau rheoli risg ar ran Gwasanaeth Archwilio Mewnol Rhanbarthol (RIAS) y Cyngor. Er bod barn yr archwiliad yn darparu 'sicrwydd rhesymol' gwnaed nifer o argymhellion i gryfhau'r broses adrodd gan gynnwys yr angen i gyflwyno dogfen 'canllaw risg' ar wahân, gan ymgorffori prosesau i gryfhau'r cysylltiad rhwng y Gofrestr Risg Gorfforaethol (CRR) a'r risgiau a nodwyd yng Nghynlluniau Busnes y Cyfarwyddiaethau, a hefyd argymell newidiadau i fformat y CRR.

Ychwanegodd fod yr Asesiad Risg Corfforaethol wedi'i ddiwygio i gynnwys newid a argymhellwyd gan Wasanaethau Archwilio Mewnol SWAP, sy'n cyflwyno colofn newydd sy'n dangos y dyddiad y neilltuwyd y sgôr. Roedd yr Asesiad Risg Corfforaethol wedi'i ddiweddaru yn Atodiad A, a oedd yn cynnwys 16 risg, 7 risg wedi'u sgorio'n uchel, 6 risg wedi'u sgorio'n ganolig, a 3 risg wedi'u sgorio'n isel.

Dywedodd fod un risg newydd - (Risg 16) “Mae risg y bydd System Gwybodaeth Gofal Cymunedol Cymru (WCCIS) yn methu â gweithredu” - wedi’i ychwanegu a’i fod yn risg Uchel gyda sgôr o 15. Dyma system TGCh sy'n dal holl gofnodion gofal cymdeithasol Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr ac sy’n cael ei chefnogi gan gontractwr allanol. Gan fod holl gofnodion a gwasanaethau gofal cymdeithasol Pen-y-bont ar Ogwr yn cael eu cadw ar y system hon, pe bai'n methu, ni fyddai ymarferwyr gwaith cymdeithasol yn gallu gwirio cofnodion unigolion sy'n hysbys i'r gwasanaeth a gallai hyn achosi problemau diogelu.

Ychwanegodd y Prif Swyddog Dros Dro - Cyllid, Perfformiad a Newid fod y sgoriau risg yn aros yr un fath ar wahân i Risg 8 - 'Methu denu, datblygu, neu gadw gweithlu sydd â'r sgiliau angenrheidiol i ateb y gofynion a roddir ar yr Awdurdod Lleol a'i wasanaethau'. Mae elfen debygolrwydd y sgôr weddilliol wedi cynyddu o 3 i 4, gan arwain at sgôr risg uwch o 12 i 16, gan nad oedd y camau lliniaru ar hyn o bryd yn gallu lleihau'r risg o'r lefelau crai.

Gofynnodd yr Aelod Lleyg mewn perthynas â Risg 5, bod y risg fel petai'n ymwneud â'r bartneriaeth â Bwrdd Iechyd Cwm Taf yn unig. Gofynnodd beth oedd y risgiau gyda phartneriaid eraill CBSPAO. Esboniodd y Prif Swyddog Dros Dro - Cyllid, Perfformiad a Newid nad oedd y gofrestr risg yn sôn yn benodol am bartneriaethau eraill felly y byddai'n ceisio dod â'r wybodaeth honno i'r pwyllgor yn y cyfarfod nesaf.

Gofynnodd yr Aelod Lleyg mewn perthynas â'r risg newydd (Risg 16), pryd fyddai'r risgiau gweddilliol yn hysbys. Esboniodd y Prif Swyddog Dros Dro - Cyllid, Perfformiad a Newid ein bod ar y cam o wybod rhai o'r mesurau lliniaru. Gwnaed llawer iawn o waith gyda'r cyflenwr. Gan fod y system yn system Cymru gyfan, dim ond sedd yn y grŵp defnyddwyr sydd gan CBSPAO i ddarparu mewnbwn ac ati. Mae'r system yn cael ei rheoli gan ddarparwr allanol yn hytrach nag o fewn CBSPAO felly roedd yn anodd deall amserlenni.

Mynegodd yr Aelod Lleyg ei phryderon gyda'r risg a gofynnodd pa mor bryderus ddylai'r pwyllgor fod a beth oedd y diweddariad ym mis Tachwedd yn mynd i'w gyflwyno. Esboniodd y Prif Swyddog Dros Dro - Cyllid, Perfformiad a Newid fod y mater wedi'i godi gyda'r CMB, CCMB a'r Cabinet a bod cyfarfodydd lefel uchel yn cael eu cynnal gyda'r cyflenwr. Cafwyd cytundebau hefyd na fyddai'r uwchraddiad yn cael ei weithredu nes ei fod yn sefydlog ond gosodwyd brys ar hyn gydag amserlenni caeth o wythnosau yn cael eu cytuno.

Gofynnodd y Cadeirydd, er y byddai'r risg yn cael ei adrodd ym mis Tachwedd fel y nodwyd yn y gofrestr, a ellid darparu diweddariad yng nghyfarfod mis Medi ar unrhyw bryderon nad oedd y gwytnwch wedi'i ddatrys ac os nad oeddem mewn gwell sefyllfa weithredol ar yr adeg honno.

Gofynnodd yr Aelod Lleyg a ellid rhoi nodyn ar y risgiau lle'r oedd colofnau'n wag, i egluro pam eu bod yn wag. Esboniodd y Prif Swyddog Dros Dro - Cyllid, Perfformiad a Newid fod y risg benodol hon wedi cael ei rhoi mewn argyfwng ond bu camau dilynol ers hyn felly byddai'n mynd â hynny yn ôl i'r Cyfarwyddwr Corfforaethol Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant.

Gofynnodd Aelod am eglurhad ar rai o'r risgiau a oedd yn gysylltiedig â chyflenwyr i'r Cyngor. Esboniodd fod Risg 9 yn ymwneud â chyflenwyr y Cyngor yn gyffredinol a bod hynny wedi bod yn risg ers cryn amser, ond roedd risgiau eraill yn y gofrestr yn ymwneud yn benodol â Covid-19 ond eto fe'u dosbarthwyd fel risg is, er bod problemau gyda chyflenwyr yn achlysurol. Esboniodd Prif Swyddog Dros Dro - Cyllid, Perfformiad a Newid bod y broblem gyda chyflenwyr sydd â staff a gafodd eu 'pingio' gan y gwasanaeth profi ac olrhain yn fater diweddar a bod y papurau hyn wedi'u paratoi cyn i hyn fod yn broblem. Ychwanegodd fod y risgiau Covid-19 yn y gofrestr yn newid o hyd a bod y gofrestr risg wedi cael ei diweddaru pan nodwyd y rhain ond yn aml roedd oedi o tua pythefnos pan gafodd y papurau eu drafftio yn barod ar gyfer y Pwyllgor.

Gofynnodd y Cadeirydd mewn perthynas â Risg 11 ar sut roedd y Cyngor yn mynd i'r afael â'r risg, a ellid newid y geiriad i adlewyrchu'r cyfyngiadau cyfredol a oedd ar waith yng Nghymru.

Gofynnodd y Cadeirydd hefyd am ddiweddariad yn y cyfarfod nesaf ar y risg mewn perthynas ag ysgolion (risgiau 14 a 15) gan fod y risg wedi'i gosod fel un uchel ar hyn o bryd. Soniodd, pe bai'r risg yn dal yn uchel, y dylid darparu gwybodaeth bellach i'r pwyllgor am y camau a oedd yn cael eu cymryd i liniaru'r risgiau hyn.

PENDERFYNWYD: Bod y Pwyllgor yn:

- Ystyried yr Asesiad Risg Corfforaethol 2021-22 (Atodiad A) wedi'i ddiweddaru;
- Derbyn adroddiad pellach ym mis Tachwedd 2021 cyn adolygiad o Asesiad Risg Corfforaethol 2022-23 a'r Polisi Rheoli Risg Corfforaethol ym mis Ionawr 2022.

266. ADRODDIAD TWYLL CORFFORAETHOL BLYNYDDOL

Cyflwynodd yr Uwch Ymchwilydd Twyll Adroddiad 2020-21 a oedd yn crynhoi'r camau a gymerwyd mewn perthynas â gwrth-dwyll ac yn rhoi diweddariad ar Ymarfer y Fenter Twyll Genedlaethol (NFI).

Dywedodd ei bod yn swyddogaeth graidd i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ystyried effeithiolrwydd trefniadau Rheoli Risg y Cyngor, yr amgylchedd rheoli a'r trefniadau gwrth-dwyll a llygredd cysylltiedig.

Amlinellodd yr Uwch Ymchwilydd Twyll feysydd allweddol y gwaith gwrth-dwyll a wnaed o fewn yr Awdurdod yn ystod 2020-21, a chrynhowyd hyn yn Atodiad A. Amlinellodd yr ymarfer paru data diweddaraf a oedd yn seiliedig ar ddata a dynnwyd ym mis Medi 2018. Nodwyd cyfanswm o 431 achos o dwyll neu wallau sy'n cyfateb i £30,276.73 o gronfeydd adferadwy. Arweiniodd yr ymarfer hefyd at ganslo 396 o fathodynnau glas, lle bu farw'r deiliad, gan gynhyrchu arbediad amcangyfrifedig o £227,700 i swyddfa'r cabinet. Roedd canlyniadau manylach wedi'u cynnwys yn Atodiad 2 o Atodiad A. Dechreuodd yr ymarfer paru data dwyflynyddol nesaf yn 2020 gyda data wedi'i dynnu

ym mis Hydref 2020 a dychwelwyd y manylion paru newydd yn Ionawr 2021. Roedd gwaith ar y paru yma yn parhau.

Amlinellodd yr Uwch Ymchwilydd Twyll y trefniadau gweithio ar y cyd yn ogystal â'r astudiaethau cenedlaethol a gynhaliwyd. Roedd y manylion yn adrannau 5 a 6 yn Atodiad A.

Gofynnodd yr Aelod Lleyg mewn perthynas â'r cynllun gweithredu, beth oedd yr amserlenni a ddisgwylid ar gyfer cwblhau'r gweithredoedd. Esboniodd yr Uwch Ymchwilydd Twyll fod llawer o'r gweithredoedd yn ymddangos yn ôl yr angen, er enghraifft y camau hyfforddi ac ymwybyddiaeth, ond dylid cwblhau'r mwyafrif o gamau gweithredu o fewn y tair blynedd.

Gofynnodd yr Aelod Lleyg a oedd y risgiau sy'n ymwneud â seiber-dwyll yn cael eu hadlewyrchu yn y cynllun gweithredu a'r sefyllfa bresennol ar hyn.

Soniodd yr Uwch Ymchwilydd Twyll, yn dilyn sgyrsiau gyda Heddlu De Cymru, bod hyfforddiant pellach wedi'i drafod ddoe ar seiber-dwyll gan grŵp Tarian ymhlith yr holl uwch ymchwilwyr twyll ar draws awdurdodau lleol. Ychwanegodd mai ei fwriad oedd darparu sesiwn hyfforddi i staff ond hefyd Aelodau.

Gofynnodd Aelod pa fath o dwyll a gyflawnwyd mewn perthynas â bathodynnau glas, a beth ellid ei wneud i gael system well fel y gellid atal y twyll hwn.

Esboniodd yr Uwch Ymchwilydd Twyll mai camddefnyddio'r bathodyn oedd y prif fathau o dwyll, h.y. pobl sy'n defnyddio bathodyn glas rhywun arall. Y materion a wynebwyd oedd ei bod yn ofynnol gael presenoldeb yn yr ardaloedd hyn i ddelio â hyn. Dywedodd fod bwriad i ymgyrch twyll debyg i flynyddoedd blaenorol fynd i'r afael â chamddefnyddio bathodynnau glas ond gyda'r pandemig a'r cyfyngiadau sydd ar waith roedd hyn yn anodd.

Ychwanegodd fod swyddogion gorfodi sifil wedi riportio camddefnyddio bathodynnau ond nad oeddent wedi'u hyfforddi'n ddigonol i ddelio ag achosion o gamddefnyddio, ac roedd yr hyfforddiant yr oedd ei angen wedi bod yn anodd ei drefnu gyda'r cyfyngiadau sydd ar waith oherwydd y pandemig. Ei brif ffocws oedd darparu hyfforddiant pellach ac roedd awdurdodau cyfagos wedi cynnig rhannu costau hyn. Credai y byddai presenoldeb pellach gan swyddogion gorfodi sydd wedi'u hyfforddi'n addas yn atal y math hwn o dwyll.

Gofynnodd Aelod a oedd dadansoddiad o'r gwahanol feysydd twyll nad oedd yn bosibl ymchwilio iddynt. Soniodd yr Uwch Ymchwilydd Twyll fod nifer o achosion na ellid ymchwilio iddynt a bod hyn oherwydd diffyg manylion. Roedd hon yn sefyllfa debyg ar gyfer adroddiadau twyll bathodyn glas lle nad oedd digon o fanylion yn yr adroddiad i ymchwilio iddynt gan nad oedd rhif bathodyn glas wedi'i ddarparu.

| | |
|---|---|
| <u>PENDERFYNWYD</u>: | bod y Pwyllgor wedi nodi'r Adroddiad Twyll Corfforaethol Blynyddol 2020-25, y mesurau sydd ar waith, y gwaith sy'n cael ei wneud i atal a chanfod twyll a chamgymeriad a'r diweddariad ar y Fenter Twyll Genedlaethol (NFI). |

267. <u>BLAENRAGLEN WAITH DDIWYGIEDIG 2021-22</u>

Cyflwynodd y Dirprwy Bennaeth Cyllid Dros Dro adroddiad, a'i ddiben oedd ceisio cymeradwyaeth ar gyfer y Flaenraglen Waith ddiwygiedig arfaethedig ar gyfer 2020-21.

Dywedodd, er mwyn cynorthwyo'r Pwyllgor i sicrhau bod ystyriaeth ddyledus yn cael ei rhoi i bob agwedd ar eu swyddogaethau craidd, roedd y Flaenraglen Waith Ddiwygiedig arfaethedig ar gyfer 2021-22 ynghlwm yn Atodiad A.

Fel y gofynnwyd yng nghyfarfod y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio a gynhaliwyd ar 18 Mehefin 2021, bydd cyfarfod ychwanegol o'r Pwyllgor wedi'i drefnu ar gyfer 9 Medi 2021. Dangosir isod yr eitemau y bwriedir eu cyflwyno yn y cyfarfod hwn.

Eitemau Agenda Arfaethedig - 9 Medi 2021

1. Cofnod Gweithredu'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio
2. Adroddiadau'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ac Archwilio Cymru
3. Proses Cwynion
4. Adroddiadau Cynnydd Archwilio Mewnol
5. Blaenraglen Waith Ddiwygiedig 2021-22

Ychwanegodd y gallai fod eitemau agenda ychwanegol yn cael eu cyflwyno i'r Pwyllgor wrth i Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 ddod i rym, yn enwedig o ran cyfrifoldebau newydd y Pwyllgor mewn perthynas â pherfformiad a hunanasesu, a byddai'r rhain yn cael eu hychwanegu i'r Flaenraglen Waith yn ôl yr angen.

PENDERFYNWYD: Bod y Pwyllgor wedi ystyried a chymeradwyo'r Flaenraglen Waith Ddiwygiedig arfaethedig ar gyfer 2021-22.

268. EITEMAU BRYS

Dim